

Cais am Ganiatâd Cynllunio

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)

Dylai'r ffurflen Cais am Ganiatâd Cynllunio gael ei defnyddio i wneud cais cynllunio manwl ar gyfer datblygiad o dan Adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), heb gynnwys datblygiadau deiliaid tai.

At ddibenion y ffurflen hon, mae gwaith datblygu yn cynnwys gwaith adeiladu, gwaith peirianeg neu waith arall, yn y tir, arno, drosto neu oddi tano, neu wneud unrhyw newid perthnasol o ran y defnydd o unrhyw adeilad neu dir arall.

Ymhlith y mathau o waith adeiladu lle mae angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer o bosibl mae:

- gwneud addasiadau strwythurol i adeiladau neu ychwanegu atynt gan gynnwys:
 - unrhyw waith sy'n ymwneud â fflat,
 - ceisiadau i newid nifer yr anheddau (h.y. addasu fflat, codi tŷ ar wahân yn yr ardd),
 - newid defnydd rhan o'r eiddo neu'r eiddo i gyd at ddefnydd nad yw'n breswyl,
 - unrhyw beth sydd y tu hwnt i ardd yr eiddo (h.y. stablau mewn padog ar wahân)
- dymchwel adeiladau
- ailadeiladu
- gwaith arall a wneir gan adeiladwr fel arfer

Bydd hefyd angen cael caniatâd cynllunio, yn y rhan fwyaf o achosion, os cynigir newid defnydd adeiladau neu dir arall.

Dylai'r ffurflen Cais gan Ddeiliad Tŷ am Waith ar / neu Ymestyn Annedd gael ei defnyddio ar gyfer cynigion i newid neu ymestyn tŷ, gan gynnwys gwaith o fewn cwrtill (ffin/gardd) tŷ.

Gall y mathau o waith adeiladu nas ystyrir yn 'ddatblygiad' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt gynnwys gwaith cynnal a chadw, gwelliannau neu addasiadau eraill y tu mewn i'r adeilad, neu nad ydynt yn cael 'effaith berthnasol' ar ymddangosiad yr adeilad y tu allan.

Ymhlith y mathau o waith adeiladu nad oes angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer o bosibl mae:

- gwaith adeiladu y tu mewn
- mân addasiadau i'r tu allan megis gosod blychau larwm
- codi waliau a ffensys terfyn o dan uchder penodol
- newid defnydd os bydd y defnydd a fwriedir yn gysylltiedig â'r defnydd presennol
- rhai mathau o ddefnydd at ddibenion amaeth neu goedwigaeth

Fodd bynnag, efallai y bydd angen cael cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu o hyd ac fe'ch cynghorir i gysylltu ag adran rheoli gwaith adeiladu eich awdurdod lleol cyn dechrau ar unrhyw waith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch p'un a oes angen i chi gael caniatâd cynllunio ar gyfer eich cynnig, y peth gorau yw i chi siarad ag adran gynllunio eich awdurdod lleol.

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig gyda'ch awdurdod lleol cyn i chi gyflwyno eich cais - gelwir hyn yn gyngor cyn gwneud cais. Fel arfer, bydd gan eich awdurdod lleol fanylion ynghylch sut i wneud hyn ar ei wefan.

[Am ragor o wybodaeth am Orchmynion Dosbarthiadau Defnydd ewch i'r Porth Cynllunio.](#)